TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

AAT Uned Cyfrifeg Rheolaeth Gymhwysol Lefel 4

Yn gryno

Mae'r Diploma AAT Lefel 4 mewn Cyfrifeg Broffesiynol yn sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer cyflogaeth o fewn cyd-destun cyfrifeg ehangach. Mae'r cwrs hwn yn ei gyfanrwydd yn cwmpasu pynciau a thasgau cyfrifyddu a chyllida ar lefel uchel.

Rydych chi'n prynu uned Cyfrifeg Rheolaeth Gymhwysol sy'n rhan o gwrs AAT Lefel 4 Diploma mewn Cyfrifeg Broffesiynol. Bydd yr uned hon yn eich galluogi chi i ddeall y broses gyllidebol. Bydd modd i chi greu cyllidebau a nodi ac adrodd ar y meysydd llwyddiannus a'r meysydd o bryder i randdeiliaid allweddol. Hefyd, byddwch chi'n ennill y sgiliau angenrheidiol ar gyfer cynnal gwerthusiad beirniadol o berfformiad sefydliadol.

Byddwch chi'n dysgu'r wybodaeth a'r sgiliau ar draws ystod o systemau a fydd yn helpu i wella amgylchedd rheolaeth y sefydliad. Bydd gwerthfawrogi bod nifer o ddulliau a deall sut a phryd mae'n briodol i'w defnyddio yn eich galluogi chi i gynghori busnes ar ystod o sefyllfaoedd.

Byddwch chi hefyd yn ennill gwerthfawrogiad o'r dulliau a ddefyddir i ymdrin â'r materion sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau tymor byr a hirdymor. Mae'n hanfodol bwysig eich bod chi'n deall y gwahaniaeth rhwng yr heriau gwahanol a'r ansicrwydd rhwng y ddwy fath o wneud penderfyniadau. Trwy werthfawrogi ac ymgorffori'r gwahaniaethau hynny yn rhan o'r

dadansoddiad a luniwyd, gall cyfrifydd rheolaeth ystyried ei hun yn rhan annatod o'r broses gwneud penderfyniadau.

Mae hwn yn gwrs 'rholio-ymlaen / rholio i ffwrdd' gyda dyddiadau cychwyn hyblyg. Rydym yn recriwtio myfyrwyr drwy gydol y flwyddyn.

Mae hwn hefyd yn gwrs dysgu cyfunol (cymysgedd o wyneb yn wyneb traddodiadol gydag athro mewn ystafell ddosbarth a gweithgareddau dysgu gan ddefnyddio technolegau digidol o gartref).

Mae'r cwrs hwn yn symud ymlaen ymhellach o Ddiploma Lefel 3 mewn Cyfrifeg a bydd yn eich galluogi i ennill sgiliau pellach i symud ymlaen o fewn y maes cyfrifeg.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... Ydych wedi cwblhau'r Diploma Uwch AAT Lefel 3 mewn Cyfrifeg yn llwyddiannus ac eisiau parhau i feithrin eich sgiliau cyfrifyddu.

... Ydych chi am fynd ymlaen i ddod yn aelod llawn yr AAT a / neu fynd ymlaen i astudio am statws cyfrifydd siartredig.

... Ydych chi am gychwyn eich busnes eich hun drwy gynllun aelodau trwyddedig yr AAT.

Cynnwys y cwrs

Byddwch yn gwella'r sgiliau a ddatblygwyd gennych o Ddiploma Lefel 3 mewn Cyfrifeg ac yn ennill sgiliau cyfrifyddu a chyllid proffesiynol gydol oes, gan eich galluogi i fanteisio i'r eithaf ar eich cyfleoedd yn eich gyrfa gyfrifyddu.

Mae gan yr AAT Lefel 4 mewn Cyfrifeg dair uned orfodol:

Drafftio a Dehongli Datganiadau Ariannol – byddwch yn dysgu am ddrafftio datganiadau ariannol ar gyfer endidau sengl a safonau cyfrifyddu perthnasol a chyfuno cwmnïau cyfyngedig. Byddwch hefyd yn ennill y sgiliau i ddehongli'r datganiadau ariannol, trwy ddefnyddio dadansoddi cymhareb.
Cyfrifyddu Rheoli Cymhwysol – byddwch yn dysgu sut i weithredu prosesau cynllunio sefydliadol o fewn sefydliad, yn defnyddio prosesau mewnol i wella rheolaeth weithredol, a thechnegau i wneud penderfyniadau tymor byr a hirdymor.
Systemau a Rheolaethau Cyfrifo Mewnol – Byddwch yn dangos eich dealltwriaeth drwy

werthuso rheolaethau mewnol a systemau cyfrifo o fewn sefydliad, ac yn gwneud argymhellion ar unrhyw wendidau a ddarganfyddwch.

Trwy gyflwyno cais yma, rydych chi'n prynu uned Cyfrifeg Rheolaeth Gymhwysol. Hefyd, bydd angen i chi brynu uned Drafftio a Dehongli Datganiadau Ariannol ar gyfer Cwmnïau Cyfyngedig ac uned Systemau a Rheoliadau Cyfrifyddu Mewnol i gwblhau pob un o'r unedau craidd ar gyfer cymhwyster AAT Lefel 4.

Mae gan yr AAT Lefel 4 mewn Cyfrifeg dair uned orfodol:

Drafftio a Dehongli Datganiadau Ariannol – byddwch yn dysgu am ddrafftio datganiadau ariannol ar gyfer endidau sengl a safonau cyfrifyddu perthnasol a chyfuno cwmnïau cyfyngedig. Byddwch hefyd yn ennill y sgiliau i ddehongli'r datganiadau ariannol, trwy ddefnyddio dadansoddi cymhareb.
Cyfrifyddu Rheoli Cymhwysol – byddwch yn dysgu sut i weithredu prosesau cynllunio sefydliadol o fewn sefydliad, yn defnyddio prosesau mewnol i wella rheolaeth weithredol, a thechnegau i wneud penderfyniadau tymor byr a hirdymor. · Systemau a Rheolaethau Cyfrifo Mewnol – Byddwch yn dangos eich dealltwriaeth drwy werthuso rheolaethau mewnol a systemau cyfrifo o fewn sefydliad, ac yn gwneud argymhellion ar unrhyw wendidau a ddarganfyddwch.

Er mwyn ennill y cymhwyster Lefel 4 mewn Cyfrifeg, bydd angen i chi gwblhau pob un o'r pedwar modiwl uchod, gallwch brynu pob modiwl ar wahân.